


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**

National Assembly for **Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Amgylchedda Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddAmgylch



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Aelodau'r Pwyllgor:

| Aelod Pwyllgor | Plaid | Etholaeth neu Ranbarth |
|---|---|---|
| Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Arfon |
| Mick Antoniw AC | Llafur Cymru | Pontypridd |
| Jeff Cuthbert AC | Llafur Cymru | Caerffili |
| Russell George AC | Ceidwadwyr Cymreig | Sir Drefaldwyn |
| Llyr Gruffydd AC | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Janet Howarth AC | Ceidwadwyr Cymreig | Gogledd Cymru |
| Julie Morgan AC | Llafur Cymru | Gogledd Caerdydd |
| William Powell AC | Democratiaid Rhyddfrydol | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jenny Rathbone AC | Llafur Cymru | Canol Caerdydd |
| Joyce Watson AC | Llafur Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

# Cylch gwaith y Pwyllgor:

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: cynnal a datblygu amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru a chynllunio ar ei gyfer.

# Cynnwys

Cyflwyniad .... 1
Gweithredu deddfwriaeth .... 3
Rheoli gwastraff .... 5
Amaethyddiaeth a rheoli tir .... 6
Morol a Physgodfeydd .... 8
Lles anifeiliaid .... 11
Cadwraeth natur .... 12
Mynediad i dir .... 15
Newid yn yr hinsawdd .... 16
Ein gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad .... 18



# Cyflwyniad

Drwy gydol y Cynulliad hwn, un o'n blaenoriaethau fu sicrhau ein bod yn rhoi llais i bryderon a diddordebau ein rhanddeiliaid; boed hynny drwy ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; neu sicrhau bod llais rhanddeiliaid yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, Llundain a Brwsel.

Rydym wedi cymryd yr un agwedd gyda'n gwaith etifeddiaeth. Yn hytrach na myfyrio ar yr hyn rydym wedi'i wneud, gwnaethom benderfynu gofyn i'n rhanddeiliaid am y cynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac, yn bwysicach, beth maen nhw'n ei ystyried yw'r heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol.

Er mwyn casglu'r safbwyntiau hyn, cynhaliwyd pedwar gweithdy yn ystod mis Ionawr a Chwefror 2016. Siaradwyd â thua 80 o randdeiliaid ac mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r prif faterion y bydd angen i'n pwyllgor (neu bwyllgorau) olynol eu hystyried wrth lunio rhaglen waith ar gyfer y Pumed Cynulliad yn ein barn ni.

Gwnaethom geisio cwmpasu cymaint â phosib o'n cylch gwaith yn ystod y gweithdai hyn, gydag un eithriad nodedig, sef polisi ynni. Y rheswm dros hynny yw bod ein barn ar bolisi ynni yn y dyfodol wedi'i nodi yn ein hadroddiad, **Dyfodol Ynni Craffach i Gymru** a gyhoeddwyd ar 8 Mawrth 2016.

Rhai themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdai hyn. Mae'n bosibl mai'r thema amlycaf oedd pryder cyffredinol ynghylch sut y bydd y we gymhleth o ddeddfwriaeth a basiwyd yn ystod y Cynulliad hwn yn cael ei gweithredu a pha effaith y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei chael. Er mwyn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddwyd ar hyn, trafodir hyn o dan bennawd ar wahân yng nghorff yr adroddiad hwn.

Nid yw'r blaenoriaethau canlynol yn gofnod o'r trafodaethau yn y gweithdai. Maent yn cynrychioli ein dealltwriaeth ni o'r prif flaenoriaethau a nododd ein rhanddeiliaid. Rydym wedi eu haddasu i adlewyrchu'r hyn y credwn y bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol eu hystyried. Heb os, mae yna feysydd polisi eraill sy'n haeddu cael eu hystyried gan bwyllgor yn y dyfodol. Rydym wedi cyfyngu ein hadroddiad i'r blaenoriaethau a nodwyd yn y gweithdai i randdeiliaid gyda'r bwriad y bydd hwn yn gyfraniad pwysig, ond nid yr unig un, at y broses o gynllunio gwaith i bwyllgor yn y dyfodol. Ni yw'n rhestr gynhwysfawr.

Bydd y rhai ohonoch sydd wedi bod ynghlwm â'n gwaith wedi clywed hyn o'r blaen, ond mae'n bwysig ein bod yn ei ailadrodd yma: mae ein gwaith yn dibynnu ar y dystiolaeth a gawn gan randdeiliaid. Rydym yn gobeithio y bydd ein holynwyr yn cydnabod pa mor bwysig yw sefydlu perthynas gref gyda'u rhanddeiliaid a'u bod yn cael cymaint o fudd ag yr ydym ni wedi'i gael yn sgil y cryfder hwn i'w gwaith.

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd


15:27

# Gweithredu deddfwriaeth

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi craffu ar dri Bil allweddol sydd wedi dod (neu sydd ar fin dod) yn Ddeddfau'r Cynulliad, sef:

- Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- Y Bil Cynllunio (Cymru); a
- Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Roeddem yn clywed yn gyson gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau yn ein gweithdai eu bod yn aneglur ynghylch y gydberthynas rhwng y tair cyfraith hyn a sut y byddant yn cael eu cyflwyno ar lawr gwlad. Bydd dull cydlynol a chydgysylltiedig i gyflawni'r amrywiaeth o gynlluniau, polisïau, datganiadau, dangosyddion ac adroddiadau y bydd y cyfreithiau hyn yn eu creu yn hanfodol er mwyn cyflawni'r dyheadau polisi y maent i fod eu cefnogi. Os cânt eu cyflwyno mewn ffordd gydlynol, bydd y cyfreithiau newydd hyn yn rhoi cyfle i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu dulliau newydd, uchelgeisiol ac, o bosibl, trawsnewidiol i Gymru.

Mae'n amlwg bod rhanddeiliaid yn credu y dylai gwaith craffu parhaus ar sut y gweithredir y cyfreithiau hyn ("craffu ar ôl deddfu") fod yn flaenoriaeth i bwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad.

Dylai hyn gynnwys monitro perfformiad y Llywodraeth yn erbyn y dangosyddion a'r nodau a bennwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dylid cynnwys craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a sefydlir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn rhaglen waith pwyllgor yn y dyfodol.



# Rheoli gwastraff

Yn unol â'r hyn y gwnaethom ei ganfod yn ein hadroddiad, Ailgylchu yng Nghymru roedd rhanddeiliaid yn falch gyda'r cynnydd a wnaed yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, yn enwedig o ran gwastraff trefol ac ailgylchu. Priodolwyd hyn yn rhannol i ddull polisi cyson gan Lywodraeth Cymru.

Nododd rhanddeiliaid nifer o heriau a blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf y mae angen mynd i'r afael â nhw os yw Cymru am barhau i wneud cynnydd o ran lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

## Meysydd blaenoriaeth

**Datblygu economi gylchol:** Bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol ystyried sut mae economi gylchol yn cael ei datblygu yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys canolbwyntio mwy ar leihau gwastraff (gan gynnwys deunydd pecynnu), ailddefnyddio, datblygu marchnadoedd ar gyfer gwastraff a chynhyrchu deunyddiau ailgylchu o safon y gellir eu defnyddio ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru.

**Adolygu targedau gwastraff:** Mae targedau ailgylchu statudol sy'n seiliedig ar bwysau ar gyfer gwastraff trefol wedi cyfrannu at gyflawni cyfraddau ailgylchu uchel yng Nghymru, ond gall targedau sy'n seiliedig ar bwysau arwain at ganlyniadau gwrthnysig. Gall targedau newid yn yr hinsawdd statudol roi cyfle i ystyried targedau sy'n seiliedig ar garbon ar gyfer casglu gwastraff. Mae'r defnydd parhaus hwn o dargedau sy'n seiliedig ar bwysau yn fater y gallai pwyllgor yn y dyfodol ei ystyried.

**Mecanweithiau ariannol:** Dylai'r ffordd o ariannu gwasanaethau gwastraff yn y dyfodol gael ei ystyried a ph'un a yw talu amdanynt drwy drethi'r cyngor a chymorth Llywodraeth Cymru yn hyfyw yn y tymor hir. Gallai cymorth wedi'i dargedu'n well gan Lywodraeth Cymru gynnwys; mecanweithiau talu wrth daflu (neu ddefnyddio); trin gwastraff fel gwasanaeth cyfleustod fel trydan neu nwy; a defnyddio ardollau ar ddeunydd pecynnu a gwastraff na ellir ei ailgylchu i ariannu gwasanaethau casglu sbwriel a gwastraff.

**Ymwybyddiaeth y cyhoedd:** Bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol fonitro sut mae'r cyhoedd yn ymgysylltu â rheoli gwastraff a ph'un a yw'r newid ymddygiadol sydd ei angen i wynebu heriau yn y dyfodol yn cael ei gyflawni. Gallai hyn gynnwys canolbwyntio ar ymdrechion i annog lleihau faint o wastraff a gynhyrchir ac addysgu pobl ifanc ynghylch y materion hyn fel rhan allweddol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

# Amaethyddiaeth a rheoli tir

Bydd cynnal ffocws ar weithredu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ('PAC') presennol yng Nghymru tra'n dechrau paratoi ar gyfer y PAC nesaf yn ystyriaethau pwysig i bwyllgor yn y dyfodol wrth lunio ei raglen waith. Hefyd, nododd rhanddeiliaid nifer o faterion penodol, fel dyfodol y rhaglen dileu TB mewn gwartheg; darparu cyfleoedd i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid i ffermio; a dylid hefyd ystyried trosglwyddo gwybodaeth.

Ni ddylid diystyru rôl bwysig y sector coedwigaeth wrth ystyried materion rheoli tir yng Nghymru.

Bydd canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar y maes polisi hwn.

## Meysydd blaenoriaeth

**Craffu ar y Rhaglen Datblygu Gwledig:** Bydd yn bwysig craffu ar y gwaith o ddarparu'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn gynnar yn y Cynulliad nesaf, ac i gynnal rhaglen graffu dreigl sy'n cynnwys sgwrs barhaus â rhanddeiliaid. Nodwyd fod adolygu effaith ac effeithiolrwydd Glastir fel rhan o waith craffu ehangach y Cynllun Datblygu Gwledig yn hanfodol.

**Coedwigaeth:** Roedd rhanddeiliaid ym maes coedwigaeth yn teimlo bod cyfraniad coedwigaeth i Gymru yn gallu cael ei anghofio weithiau mewn trafodaethau ar amaethyddiaeth. Argymhellwyd canolbwyntio ar goedwigaeth, plannu coetiroedd a choetiroedd ar y fferm fel maes blaenoriaeth i bwyllgor yn y dyfodol. Yn benodol, nid oes digon o blannu rhywogaethau pren meddal i ateb galw marchnadoedd yn y dyfodol.

**Newydd-ddyfodiaid a sgiliau:** Mae cymorth i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc yn faes pwysig i lawer o randdeiliaid. Nodwyd adolygiad o ystâd ffermydd awdurdodau lleol a'i rôl yn rhoi mynediad i dir ar gyfer ffermwyr newydd a newydd-ddyfodiaid fel maes gwaith posibl ar gyfer y Cynulliad nesaf. Nodwyd ystyried model Cyswllt Ffermio, cyfnewid gwybodaeth rhwng sefydliadau ymchwil a darparu'r sgiliau a'r cyfleoedd cywir i'r diwydiant yn rhannau pwysig o ddatblygu sector rheoli tir cynaliadwy. Byddai dilyn i fyny ar ein hadroddiad ar Reoli Tir Cynaliadwy yn cwmpasu nifer o'r materion hyn.

**Dyfodol ffermio yng Nghymru a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin:** Bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol ddeall beth mae Cymru ei eisiau o'r PAC ar ôl 2021 ac yna ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a sefydliadau Ewropeaidd er mwyn dylanwadu ar y broses ddiwygio. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael ymchwiliad i ddyfodol ffermio yng Nghymru.

O ran dyfodol cymorth uniongyrchol i ffermwyr, bydd yn bwysig ystyried cynaliadwyedd cymunedau gwledig, eu lle yn y gadwyn gyflenwi bwyd a dyfodol yr fferm deulu draddodiadol o fewn yr economi wledig ehangach.

**Dileu TB mewn gwartheg:** Nodwyd adolygiad ar strategaeth dileu TB mewn gwarchod i Gymru fel maes blaenoriaeth i bwyllgor yn y dyfodol.

**Cynhyrchu bwyd a diod:** Gydag ansefydlogrwydd ar hyn o bryd mewn marchnadoedd amaethyddol, effeithiau newid yn yr hinsawdd a bod rhai busnesau gwledig yn fregus, nododd rhanddeiliaid fod y gadwyn cyflenwi bwyd yn flaenoriaeth. Y meysydd allweddol a nodwyd oedd cydbwysedd pŵer rhwng manwerthwyr a ffermwyr yn y gadwyn gyflenwi; yr angen i arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at gynnyrch fferm a gynhyrchwyd yng Nghymru; yr angen i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch amaethyddol; rôl caffael cyhoeddus, a'r gallu i brosesu yng Nghymru.

## Gyrru amaethyddiaeth ymlaen gynaliadwy a rheoli tir




Dylan Morgan o NFU Cymru yn dweud wrthym am ei brofiad o weithio gydag Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011 - 2015). Mae o hefyd yn dweud wrthym pa bolisïau byddai ei sefydliad yn hoffi i'r Pwyllgor Cynulliad nesaf ganolbwyntio arno. Gwyliwch ar-lein: **https://youtu.be/evrzZZkLBOE**

# Morol a Physgodfeydd

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae'r argymhellion yn ein Polisi morol yng Nghymru ond wedi'u cwblhau'n rhannol. Adlewyrchir hyn yn y blaenoriaethau a nodwyd gan randdeiliaid. Byddai dilyn yr argymhellion a wnaed gennym yn fan cychwyn da er mwyn craffu yn y dyfodol.

Ceir pryder nad yw polisi morol yn cael y flaenoriaeth y dylai ei denu yn Llywodraeth Cymru ac mae'r meddylfryd 'a morol' yn parhau.

Dylai Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gael ei gwblhau yn gynnar yn y Cynulliad nesaf. Dylid ystyried craffu ar y cynllun hwn a chraffu ar y ffordd y caiff ei weithredu.

Mae pysgodfeydd yn gwneud cyfraniad pwysig i lawer o economïau lleol yng Nghymru ac mae'n ddiwydiant sydd â lle i ddatblygu ymhellach. Mae'n haeddu cael mwy o ystyriaeth.

## Meysydd blaenoriaeth

Blaenoriaethu yr amgylchedd morol ar draws Llywodraeth Cymru: Bydd pwyllgor newydd am sicrhau bod yr amgylchedd morol yn cael digon o flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

**Y Cynllun Gweithredu Morol a Physgodfeydd:** Mae angen diwygio'r Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd. Galwodd rhanddeiliaid iddo gael ei gyhoeddi fesul cam dros 12 mis i ganiatáu iddynt alinio eu rhaglenni gwaith ac adnoddau i'r blaenoriaethau morol ar gyfer y flwyddyn honno. Nododd sefydliadau y byddai hyn yn eu galluogi i nodi ble y gallent helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni eu hamcanion morol.

**Cwblhau a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru:** Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i fod i gael ei gwblhau yn gynnar yn y Cynulliad nesaf. Dylid ystyried craffu ar y cynllun hwn a chraffu ar y ffordd y caiff ei weithredu. Ystyrir bod yr angen i'r cynllun gysylltu â chynlluniau a pholisïau a ddatblygir fel rhan o Fil yr Amgylchedd yn bwysig er mwyn ei lwyddiant.

**Casglu tystiolaeth a data:** Byddai rhanddeiliaid yn awyddus i weld data a thystiolaeth morol yn cael eu blaenoriaethu. Cafwyd cytundeb y gellir cymryd agwedd ragofalus at ddatblygu oherwydd absenoldeb data ac y gallai casglu data yn fwy effeithiol helpu i oresgyn y broblem hon. Mae rhanddeiliaid yn croesawu creu porth data morol ond yn dadlau bod angen strategaeth ar gyfer ei ddatblygu a'i gynnal a'i gadw yn barhaus. Bydd annog rhanddeiliaid i gymryd rhan i gau bylchau mewn tystiolaeth a data yn dasg bwysig ar gyfer pwyllgor yn y dyfodol.

**Mwy o ffocws ar bysgodfeydd:** Ystyriwyd bod cael mwy o ffocws ar gyfraniad pysgodfeydd i economi Cymru yn bwysig. Er y cydnabyddir bod ei gyfraniad i'r economi cyfan yn fach, pwysleisiodd rhanddeiliaid ei bwysigrwydd economaidd i'r cymunedau lle maent yn digwydd. Nodwyd fod strategaeth i ddatblygu'r sector pysgodfeydd môr a chwblhau adolygiad o is-ddeddfau pysgodfeydd gan Lywodraeth Cymru yn faterion pwysig. Bydd cynyddu faint o fwyd môr o Gymru sy'n cael ei brosesu a'i ddefnyddio yng Nghymru yn bwysig wrth ystyried datblygu'r sector.

**Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig Morol:** Nodwyd rheoli safleoedd gwarchodedig, a chasglu data, yn flaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Nododd rhanddeiliaid gyflwr anffurfiol nifer o safleoedd gwarchodedig ac mae pryder ynghylch diffyg cynllun strategol i wella eu rheolaeth.



# Lles anifeiliaid

Cafodd amrywiaeth o wahanol ddeddfau a pholisïau eu cyflwyno neu eu haddasu mewn perthynas â lles anifeiliaid yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd y neges a ddaeth gan randdeiliaid yn gymysg o ran y dull a gymerwyd ac roedd pryder cyffredinol ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r newidiadau hyn.

Bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol ystyried gweithredu'r newidiadau hyn a sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn ystyrlon wrth weithredu polisi a deddfwriaeth bresennol yn ogystal â datblygu polisïau a deddfwriaeth newydd yn y maes hwn.

## Meysydd blaenoriaeth

**Datblygu strategaeth lles anifeiliaid:** Dylid cynnwys craffu ar Gynllun Gweithredu Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru yn rhaglen waith pwyllgor yn y dyfodol, a gallai gynnwys ystyried a ddylid datblygu strategaeth lles anifeiliaid ar ei phen ei hun.

Yn y gorffennol, mae rhai wedi ystyried adolygiadau Llywodraeth Cymru o les a deddfwriaeth anifeiliaid yn rhywbeth ad hoc. Gallai pwyllgor yn y dyfodol asesu sut y caiff deddfwriaeth a pholisi yn y maes hwn eu hadolygu a datblygu ac a oes proses strwythuredig ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar waith.

Gallai pwyllgor yn y dyfodol hefyd ddymuno asesu a oes gwerth sefydlu dangosyddion lles anifeiliaid i olrhain cynnydd yn erbyn blaenoriaethau lles anifeiliaid a ddeddfwriaeth.

Nid yw adroddiad yr RSPCA ar berchenogaeth cŵn cyfrifol wedi cael ei gyhoeddi eto. Dylai'r adroddiad hwn fod yn ystyriaeth bwysig ar gyfer pwyllgor yn y dyfodol.

**Rheoli ceffylau:** Mae angen rhagor o waith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014. Yn ogystal ag edrych ar y Ddeddf, dylai pwyllgor yn y dyfodol ystyried a ddylai'r rhanddirymiad rhag y rheolau adnabod a microsglodynnu ceffylau ar gyfer merlod ar rai tiroedd comin gael eu dileu. Mae hefyd angen ymchwilio ymhellach i'r mater o ferlod ar diroedd comin.

**Adnoddau ar gyfer cyflwyno:** Nododd rhanddeiliaid fod adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno deddfwriaeth lles anifeiliaid yn flaenoriaeth. Gallai pwyllgor yn y dyfodol fyfyrio ar y ddeddfwriaeth gorfodi lles anifeiliaid effeithiol ledled Cymru.

# Cadwraeth natur

Y materion pwysicaf a nodwyd gan randdeiliaid oedd cyflwyno a gweithredu Bil yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd gydlynol. Mae rhanddeiliaid yn credu bod cyflwyno'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn llwyddiannus, ar y cyd â'r Ddeddf Cynllunio, yn cynnig cyfle i wneud cynnydd yn erbyn ein nodau cadwraeth natur ac ein huchelgais i atal colli bioamrywiaeth.

Ystyrir bod craffu ar y cyfreithiau newydd hyn yn rhan hanfodol o raglen waith pwyllgor yn y dyfodol a dylai roi cyfle i bwyllgor yn y dyfodol ystyried y cynnydd a wneir. Yn ogystal â'r darn hwn o waith cyffredinol, nododd rhanddeiliaid dri maes penodol o waith i bwyllgor yn y dyfodol eu hystyried.

## Meysydd blaenoriaeth

**Craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru:** Dylai pwyllgor yn y dyfodol barhau â gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn bwysig i randdeiliaid. Dylai sesiynau ganolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaeth rheng flaen Cyfoeth Naturiol Cymru i gwsmeriaid.

**Cynllun Adfer Natur a bioamrywiaeth:** Nodwyd monitro cynnydd i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a gweithredu Cynllun Adfer Natur yn feysydd blaenoriaeth gan randdeiliaid. Bydd y berthynas rhwng y gwaith hwn a'r dyletswyddau newydd yn Bil yr Amgylchedd yn bwysig, yn ogystal â'u cyfraniad at gyrraedd targedau Ewropeaidd erbyn 2020.

**Ansawdd dŵr:** Nodwyd effaith ansawdd dŵr (mewndirol a morol) ar gadwraeth natur a bioamrywiaeth gan nifer o sefydliadau fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer pwyllgor yn y dyfodol. Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer cynlluniau gwasanaethau ecosystem arloesol fel rhan o'r gwaith hwn. Yn ogystal â manteision y byddai ansawdd dŵr gwell yn dod i gadwraeth natur a bioamrywiaeth, dylid ystyried manteision i'r diwydiant pysgota a thwristiaeth. Gellid hefyd cynnwys y proffil ariannu a gweithredu ar gyfer bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

## Hyrwyddo amaethyddiaeth a rheoli tir cynaliadwy



Bydd Katie-Jo Luxton o RSPB Cymru yn dweud ei hanes a'i phrofiad o weithio gyda Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011-2015). Mae hefyd yn dweud wrthym pa bolisïau y byddai ei sefydliad yn hoffi i bwyllgor nesaf y Cynulliad ganolbwyntio arnynt. Gwyliwch ar-lein: **https://youtu.be/csvUp3pmvoM**



# Mynediad i dir

Dylai pwyllgor yn y dyfodol fynd i'r afael â'r mater mynediad. Er y gall hyn fod yn fater dadleuol, mae consensws cyffredinol bod angen ei ddatrys os ydym am wireddu manteision economaidd, cymdeithasol a lles mewn cysylltiad â mynediad i amgylchedd a mannau gwyrdd.

## Meysydd blaenoriaeth

**Mynediad i dir:** Cytunodd rhanddeiliaid bod angen gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â hawliau mynediad i dir yng Nghymru. Byddai pwyllgor yn y dyfodol mewn sefyllfa dda i gynnal ymchwiliad cytbwys i'r mater hwn.

**Gwybodaeth ac addysg am hawliau mynediad presennol:** Cytunodd rhanddeiliaid ar y cyfan y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i hysbysu ac addysgu pobl ynghylch hawliau mynediad presennol, manteision iechyd hamdden awyr agored, eu defnyddio'n gyfrifol, a chyfleoedd i gymunedau difreintiedig gael mynediad i fannau gwyrdd a chefn gwlad. Gellir cysylltu hyn â gwaith yn ymwneud ag atal colli bioamrywiaeth ac adfer a dylai ffurfio rhan o unrhyw ymchwiliad.

**Tirweddau dynodedig:** Gan adeiladu ar yr adolygiad o dirweddau dynodedig, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid cael ymchwiliad i ystyried manteision economaidd a chymdeithasol tirweddau dynodedig i ymwelwyr, tirfeddianwyr, a busnesau. Gallai pwyllgor yn y dyfodol ystyried galw am rôl fwy ffurfiol i'r Cynulliad wrth graffu ar barciau cenedlaethol.

# Newid yn yr hinsawdd

Rydym wedi bod yn glir ein bod yn gweld mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fel y mater mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Cymru, a bod angen asesu pob ystyriaeth polisi arall drwy'r prism hwn.

Mae Cymru wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol er mwyn mynd i'r afael â hyn, ac wedi gosod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y targedau hyn a bod y fframwaith yn cael ei weithredu'n effeithiol ar draws pob maes polisi.

Nid yw newid yn yr hinsawdd yn fater i'r pwyllgor amgylchedd yn y dyfodol yn unig, ond dylai fod yn ystyriaeth i bob un o bwyllgorau'r Cynulliad wrth drafod eu rhaglenni gwaith. Pan fo cyfleoedd, dylid ystyried cydweithio rhwng pwyllgorau'r Cynulliad.

Mae ein hadroddiad **Dyfodol Ynni Craffach i Gymru** yn tynnu sylw at flaenoriaethau ynni a thai ychwanegol. Dylai pwyllgor yn y dyfodol ystyried Dyfodol Ynni Craffach i Gymru ochr yn ochr â'r adroddiad etifeddiaeth hwn wrth bennu ei raglen waith.

## Meysydd blaenoriaeth

**Strategaeth:** Ar hyn o bryd, nid oes cynllun cyflenwi strategol trosfwaol ar gyfer newid yn yr hinsawdd ar draws pob sector. Dylai pwyllgor yn y dyfodol asesu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r achos dros gael cynllun cyflenwi strategol trosfwaol. Dylai hefyd fonitro cynnydd tuag at gyflawni targedau lleihau allyriadau. Dylai hyn gynnwys gwaith craffu blynyddol ar gynnydd gan nad oes proses ffurfiol ar gyfer adrodd yn erbyn targedau yn flynyddol.

**Addasu:** Nododd rhanddeiliaid fod ffocws ar addasu newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â chymryd camau i liniaru a lleihau allyriadau yn brif fater. Yn benodol, nodwyd fod ymchwiliadau i lifogydd, draenio trefol cynaliadwy, gwarchod yr arfordir, ac y graddau y mae'r broses gynllunio yn cefnogi mesurau addasu yn feysydd gwaith pwysig i bwyllgor yn y dyfodol.

**Trawsnewid i economi carbon isel:** Dylai pwyllgor yn y dyfodol ystyried craffu ar gynnydd tuag at economi carbon isel. Mae meysydd penodol i'w hystyried yn cynnwys: gwres carbon isel, rheoleiddio defnydd y tir, mynediad i gyllid ar gyfer prosiectau ynni a gwres cymunedol; a mabwysiadu cyllidebau carbon ar draws holl adrannau'r llywodraeth.

**Trafnidiaeth carbon isel:** Bydd lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth yn hanfodol mewn ymdrechion i gyrraedd targedau lleihau allyriadau cenedlaethol. Dylai pwyllgor yn y dyfodol ystyried polisi trafnidiaeth o'r safbwynt hwn, gan gynnwys datblygu systemau trafnidiaeth integredig a'r penderfyniad i fuddsoddi mewn seilwaith traffordd newydd.

## Mae angen i ni newid i economi carbon isel




Bydd Jess McQuade o WWF Cymru yn dweud ei hanes a'i phrofiad o weithio gyda Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011-2015). Mae hefyd yn dweud wrthym pa bolisïau y byddai ei sefydliad yn hoffi i bwyllgor nesaf y Cynulliad ganolbwyntio arnynt. Gwyliwch ar-lein: **https://youtu.be/zIOIC15dxkg**

## Cyflwyno yn allweddol




Bydd Haf Elgar o Friends of the Earth Cymru yn dweud ei hanes a'i phrofiad o weithio gyda Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011-2015). Mae hefyd yn dweud wrthym pa bolisïau y byddai ei sefydliad yn hoffi i bwyllgor nesaf y Cynulliad ganolbwyntio arnynt. Gwyliwch ar-lein: **https://youtu.be/8IpD63cvQxw**

# Ein gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

Rhestr o waith y Pwyllgor fesul blwyddyn (heb gynnwys gwaith dilynol na sesiynau arferol megis craffu ar waith Gweinidogion neu'r gyllideb).

'Legislative Consent Memorandum' is abbreviated as 'LCM'.

| Blwyddyn | Gwaith |
|---|---|
| **2011-12** | – Polisi ynni a chynllunio yng Nghymru<br>– Polisi Amaethyddol Cyffredin<br>– Polisi Pysgodfeydd Cyffredin<br>– Yr Achos Busnes dros Un Corff Amgylcheddol<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Gorchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012 |
| **2012-13** | – Glastir<br>– Diogelu'r Arfordir yng Nghymru<br>– Gorchymyn drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012<br>– Gorchymyn drafft Corff Amgylcheddol Naturiol Cymru (Sefydlu) 2013<br>– Polisi Morol yng Nghymru<br>– Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol<br>– Halogi cynhyrchion cig gyda chig ceffyl<br>– Y Bil Rheoli Cŵn (Cymru) drafft<br>– Cynlluniau Datblygu Lleol a niferoedd poblogaeth<br>– Polisi dŵr yng Nghymru<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Twf a Seilwaith<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Ynni<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio – Banc Buddsoddi Gwyrdd<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Diwydiant dŵr |
| **2013-14** | – Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014<br>– Diogelu'r arfordir<br>– Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd<br>– Rhywogaethau goresgynnol estron<br>– Y Bil Cynllunio (Cymru) drafft |

| Blwyddyn | Gwaith |
|---|---|
| **2013-14** | – Newid yn yr hinsawdd<br>– Rheoli Tir yn Gynaliadwy<br>– Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Seilwaith<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2)<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Dŵr |
| **2014-15** | – Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru<br>– Bioamrywiaeth<br>– Ailgylchu yng Nghymru<br>– Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>– Bil Cynllunio (Cymru) 2015<br>– Cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer gwahardd pysgodfeydd rhwydi drifft<br>– Cynigion y Comisiwn Ewropeaidd o ran cynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig<br>– Lles anifeiliaid<br>– Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014: Craffu ar ôl deddfu<br>– Effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd<br>– Materion amaethyddol<br>– Craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru<br>– Ansawdd dŵr yng Nghymru |
| **2015-16** | – Bil yr Amgylchedd (Cymru) (sydd i fod i ddod yn Ddeddf ym mis Mawrth 2016)<br>– Dyfodol ynni craffach i Gymru<br>– Bil Cymru Drafft<br>– Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol - Y Bil Cynllunio a Thai – Prynu gorfodol<br>– Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad |